28/01/2025

# Adroddiad Dyletswydd Adran 6: 2023-2025

Trafnidiaeth Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Cynnwys ........ 2
1 Cyflwyniad ........ 5
1.1 Trosolwg ........ 5
1.2 Ein gweithrediadau ........ 5
1.3 Amey Infrastructure Wales ........ 6
1.4 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ........ 6
2 Deddfwriaethau, Polisïau ac Ysgogwyr Allweddol ........ 7
2.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – dyletswydd Adran 6 ........ 7
2.2 Rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth ........ 7
2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 8
2.4 Polisïau, adroddiadau a datganiadau ........ 8
2.4.1 Datganiadau ardal ........ 8
2.4.2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ........ 9
2.4.3 Polisi Adnoddau Naturiol ........ 9
3 Dogfennau mewnol ategol ........ 10
3.1 Cynllun Addasu i'r Hinsawdd a Chadernid ........ 10
3.2 Strategaeth Gorfforaethol ........ 10
3.3 Rheoli'r Amgylchedd ........ 11
3.3.1 Cynlluniau Atal Llygredd ........ 11
3.3.2 Briffiau Digwyddiadau Amgylcheddol ........ 12
3.4 Canllawiau Seilwaith Gwyrdd ........ 12
3.5 Pecyn Cymorth Gwneud Penderfyniadau ........ 12
3.6 Pecyn Cymorth yr Orsaf ........ 13
3.7 Cynllun Gwaith ........ 13
3.8 Amcanion Llesiant ........ 13
3.8.1 Amcan 2: O Fudd i'r Amgylchedd ........ 13
3.9 Llywodraethu ........ 13
4 Uchafbwyntiau, canlyniadau a materion allweddol ........ 15
4.1 Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau ........ 15
4.2 Cyfathrebu ac ymgysylltu ........ 15
4.3 Cydweithio â Rhanddeiliaid ........ 16

4.4 Rheilffyrdd Cymunedol ... 16
4.5 Prif ffrydio arferion gorau ... 16
4.6 Mentrau bioamrywiaeth ... 18
4.7 Heriau, rhwystrau a chyfyngiadau ... 19
4.8 Astudiaethau Achos ... 19
4.8.1 Llys Cadwyn ... 19
4.8.2 Gorsaf Ynys y Barri ... 20
4.8.3 Heboglys Radur ... 20
4.8.4 Depo y Barri ... 20
4.8.5 Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru ... 21
4.8.6 Amey Infrastructure Wales a Chynghrair Craidd ... 21
4.8.7 Canol Tref Aberhonddu ... 22
5 Adroddiad gweithredu ... 24
5.1 Amcan 1: Ymgysylltu ac ategu cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel ... 24
5.1.1 Ymgorffori bioamrywiaeth ... 24
5.1.2 Cyllid ... 24
5.1.3 Hyfforddiant, ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth ... 25
5.2 Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth ... 26
5.2.1 Llinellau Craidd y Cymoedd ... 26
5.2.2 Waltwood ... 28
5.3 Amcan 3: Cynyddu cadernid ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd dirywiedig a chreu cynefinoedd ... 29
5.4 Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau ... 30
5.4.1 Prif bwysau ... 30
5.4.2 Newid hinsawdd a chadernid ... 30
5.4.3 Seilwaith Gwyrdd ... 31
5.5 Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro ... 32
5.5.1 Casglu a rhannu data ... 32
5.5.2 Dangosyddion perfformiad allweddol a metrigau ... 32
5.5.3 Llywodraethu a chydymffurfio ... 33
5.5.4 Gwirfoddoli ... 33
5.5.5 Cymorth Ecolegol ... 34

5.5.6 Cyllidebau - Bioamrywiaeth ..... 34
5.5.7 Cydweithwyr ac Adnoddau ..... 34
5.5.8 Cyllid a Phartneriaethau ..... 34
6 Adolygu dyletswydd Adran 6 ..... 35

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg

Mae Trafnidiaeth Cymru yn newid y ffordd y mae Cymru'n teithio, gan sicrhau mai trafnidiaeth gynaliadwy yw'r dewis cyntaf. Rydyn ni'n datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig aml-ddull o'r enw Rhwydwaith T, i'w gwneud hi'n haws i bobl deithio ar y trên, ar y bws, ar droed, ar olwynion ac ar feic.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith sydd â chynaliadwyedd wedi'i wreiddio drwyddi draw. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n gweithio i gynyddu bioamrywiaeth a chyfyngu ar yr effaith rydyn ni'n ei chael ar yr amgylchedd naturiol.

## 1.2 Ein gweithrediadau

Mae TrC wedi cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Rydym yn cyflwyno trenau newydd ac yn trydaneiddio'r cledrau. Gyda gwelliannau i'r amserlen, rydym wedi cynyddu gwasanaethau trên ledled Cymru a'r gororau.

Ein huchelgais yw i deithiau trên ddod yn rhan bob dydd a fforddiadwy o fywydau pobl. Rydyn ni'n cefnogi rhanbarthau ac awdurdodau lleol i gael cyllid sylweddol ar gyfer gwell trafnidiaeth rheilffyrdd yn eu hardal.

Mae bysiau'n achubiaeth i gymunedau ledled Cymru. Rydyn ni'n helpu i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy llyfn. Rydyn ni'n rhedeg nifer o gontractau bysiau TrawsCymru teithiau hir yng Nghymru ac rydyn ni wedi gweld twf yn nifer y teithwyr. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, rydyn ni wedi helpu i gyflwyno tocynnau Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd a thocynnau 1bws.

Rydyn ni'n helpu pobl i wneud teithiau cynaliadwy. Rydyn ni wedi gwella'r cysylltiadau cerdded a beicio â'n gorsafoedd. Mae'r trenau beicio newydd ar reilffordd Calon Cymru yn golygu y gallwn hwyluso mwy o deithiau hamdden.

Cafodd ein canolfan ddylunio ei chreu i barhau i wella ansawdd y ddarpariaeth teithio llesol yng Nghymru. Rydym yn darparu pecynnau cymorth sydd wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i hyrwyddo cerdded, olwynio a beicio.

Rydym hefyd wedi sefydlu Ffeibr TrC, gan gynnig rhyngrwyd cyflym gan ddefnyddio'r ceblau ffeibr a osodwyd wrth drydaneiddio'r rheilffyrdd yng nghymoedd y De. Bydd hyn yn darparu cysylltiad cyflymach i gwmnïau a chymunedau.

## 1.3 Amey Infrastructure Wales

Mae Amey Infrastructure Wales yn gweithio gyda ni i gyflawni Prosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd; gan ffurfio rhan bwysig o brosiect Metro De Cymru i wella ac adnewyddu asedau presennol ar draws y rhanbarth.

Mae'r prosiect datblygu hwn (gan gynnwys trydaneiddio'r llwybr 25kV) yn galluogi gwasanaethau amlach, mwy o gapasiti gyda mwy o drenau a phrofiad gwell i gwsmeriaid. Bydd hyn yn gwella cysylltedd yn sylweddol ledled De Cymru ac yn darparu mynediad at swyddi, addysg a chyfleoedd hamdden.

## 1.4 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth TrC yn nodi ein prif amcanion a thargedau mewn perthynas â bioamrywiaeth:

- Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau
- Cyfathrebu a Thryloywder
- Prif Ffrydio Arferion Gorau
- Cydweithio ac Ymgysylltu
- Cefnogi Mentrau Bioamrywiaeth

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth wedi'i ddylunio i fod yn ddogfen fyw; caiff ei hadolygu bob blwyddyn a'i diweddaru yn ôl yr angen (er enghraifft, ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth). Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru (2026-2030) yn cael ei chynhyrchu ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth wedi cael ei ymgorffori ar lefel sefydliadol sy'n dangos ymrwymiad a rhwymedigaethau TrC o dan Ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

# 2 Deddfwriaethau, Polisïau ac Ysgogwyr Allweddol

## 2.1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – dyletswydd Adran 6

Fel corff cyhoeddus, o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gennym ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo cadernid ecosystemau a gwreiddio ystyriaeth o'r rhain yn ein gweithgareddau, ein polisïau, ein cynlluniau, ein rhaglenni a'n prosiectau o ddydd i ddydd. Yn TrC, rydyn ni'n gwneud hyn ar raddfa leol a thirwedd.

Mae'r adroddiad hwn a'n Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gyda'i gilydd yn bodloni'r gofynion i adrodd ar ein gweithredoedd o dan y ddyletswydd Adran 6, drwy baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud a darparu enghreifftiau allweddol o'r ffyrdd rydyn ni'n cydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6.

O dan Ddyletswydd Gweinidog Cymru, mae'n rhaid i TrC adrodd ar ein cynnydd yn unol â dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 2.2 Rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth

Roedd Deddf yr Amgylchedd Cymru wedi disodli dyletswydd Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ar Weinidog Cymru i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o rywogaethau â blaenoriaeth a chynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru sydd, yn eu barn nhw, ag arwyddocâd allweddol i gynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.

O dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Rhywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth a restrir o dan Adran 7
- Datganiadau Ardal perthnasol mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod cyhoeddus yn arfer ei swyddogaethau
- Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2025).

## 2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, cydweithio â chymunedau a phartneriaid, a chymryd camau ataliol i fynd i'r afael â heriau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn gorff a enwir o dan y Ddeddf ac rydyn ni wedi cyhoeddi ein Datganiad Llesiant ein hunain, sy'n nodi sut byddwn ni'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol ac yn gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein penderfyniadau. Mae hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddarparu atebion trafnidiaeth sy'n cefnogi Cymru ffyniannus, gydnerth ac iachach.

Er budd yr amgylchedd, mae un o'n hamcanion craidd yn arbennig o berthnasol i fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn gwella ansawdd aer ac yn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau. Mae ein seilwaith rheilffyrdd yn chwarae rhan unigryw yn yr ymdrech hon, gan ddarparu coridorau bywyd gwyllt di-dor ledled Cymru a galluogi teithio carbon isel sy'n gallu cysylltu pobl â natur.

Drwy integreiddio egwyddorion dylunio cynaliadwy, hyrwyddo cerbydau trydan ac allyriadau isel, a mabwysiadu arferion economi gylchol, rydym yn helpu i ddiogelu treftadaeth naturiol Cymru. Mae rheilffyrdd hefyd yn hwyluso mynediad at fannau gwyrdd a hamdden, gan gyfrannu at gymunedau iachach a gwella llesiant.

## 2.4 Polisïau, adroddiadau a datganiadau

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn defnyddio tri ysgogwr allweddol (a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru) i ganolbwyntio ar amcanion hanfodol i gyflawni newid hyfyw o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru:

### 2.4.1 Datganiadau ardal

Mae saith Datganiad Ardal wedi cael eu creu, ar draws Cymru. Mae pob un yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, yr hyn y gall pob un ohonom ei wneud i ymateb i'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda'i gilydd, gellir ystyried bod y saith Datganiad Ardal yn ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru a Datganiad Ardal Canol De Cymru yn arbennig o berthnasol i TrC mewn perthynas â dyletswydd Adran 6; lle rydym yn berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd (y tu allan i hyn; mae'r tir yn cael ei reoli gan

Network Rail). O'r herwydd, mae gennym awdurdodaeth lawn dros agweddau anweithredol pwysig fel rheoli a defnyddio tir yn yr ardal hon.

### 2.4.2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Nod y trydydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ail-werthuso sut rydyn ni'n defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â'r bygythiadau deuol sy'n deillio o argyfyngau hinsawdd a natur.

### 2.4.3 Polisi Adnoddau Naturiol

Prif ffocws y Polisi Adnoddau Naturiol yw gwella'r ffordd rydyn ni'n rheoli ein hadnoddau naturiol. Mae'r polisi yn nodi sut gall polisïau Llywodraeth Cymru gyflawni amcanion economaidd ac amgylcheddol yn ogystal â chyflawni ar draws Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# 3 Dogfennau mewnol ategol

Mae strategaethau, cynlluniau a pholisïau eraill ar draws y sefydliad yn cefnogi ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Mae rhagor o fanylion ar gyfer pob un isod.

Ar hyn o bryd mae'r tîm Datblygu Cynaliadwy yn ailwampio polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau Datblygu Cynaliadwy mewnol ar y cyd yn unol â'r amcanion llesiant corfforaethol newydd (gweler Adran 3.10) a fydd yn cael eu cwblhau a'u rhannu â phob cyfarwyddiaeth yn 2026.

## 3.1 Cynllun Addasu i'r Hinsawdd a Chadernid

Cafodd ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid ei ddatblygu i ddarparu'r cyfeiriad strategol a'r llywodraethu gofynnol ar gyfer cynyddu gallu'r sefydliad i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithiol. Mae'r cynllun yn helpu TrC adnabod, cofnodi, a lliniaru ei risgiau o ran hinsawdd ar draws ein hasedau, rhwydweithiau a'n gweithrediadau, drwy ymrwymo i wreiddio cadernid hinsawdd ym mhopeth a wnawn.

Gan gydnabod y cysylltiadau cynhenid rhwng cadernid a'r argyfwng ym myd natur, mae ein cynllun gweithredu cadernid hinsawdd strategol yn canolbwyntio ar y cyd-fanteision y gellir eu gwireddu os ymaddasir yn effeithiol. Mae'n hanfodol ein bod yn adfer ein mannau naturiol a'n bioamrywiaeth fel bod cymdeithas yn gallu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

O'r herwydd, rydym yn gweithio ar gynhwysiant Atebion ar Sail Natur fel elfen allweddol dros ddewisiadau peirianyddol caled, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd neu i weithio gyda natur i leihau'r graddau mae TrC yn agored i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phrosesau a deunyddiau ecosystemau naturiol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a pheryglon tywydd eraill, fel gwres a hyrddiau gwynt.

Bydd cynlluniau Atebion ar Sail Natur yn cael eu gwerthuso o ran eu haddasrwydd i'n hasedau ac yn cael eu darparu ar y cyd (gyda rhanddeiliaid craidd fel Cyfoeth Naturiol Cymru) i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Os penderfynir mai atebion peirianyddol caled yw'r rhai mwyaf priodol, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod prosiectau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith yn sensitif er mwyn lleihau unrhyw effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau cyfagos.

## 3.2 Strategaeth Gorfforaethol

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol (2021-2026) yn ymrwymo i sicrhau bod ein diwylliant yn un lle mae cynaliadwyedd a chenedlaethau'r dyfodol wrth galon y broses o wneud penderfyniadau

# 3.3 Rheoli'r Amgylchedd

Mae ein System Rheoli'r Amgylchedd wedi'i hardystio i Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (sy'n cyfateb i ISO14001) ac mae'n cyfeirio at ein cynlluniau a'n safonau bioamrywiaeth, gan eu halinio â gofynion cydymffurfio amgylcheddol perthnasol. Fel rhan o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, mae'n rhaid i ni hefyd gynnal cofrestr gyfreithiol amgylcheddol a gwerthuso ein cydymffurfiad yn rheolaidd â deddfwriaeth berthnasol fel rhan o hyn.

Yn ogystal, gyda'i gilydd mae ein Polisi Rheoli'r Amgylchedd, ein System Rheoli'r Amgylchedd a'n Cynllun Atal Llygredd, yn cyfrannu at y gwaith o ddiogelu a gwella cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth drwy:

- Osod safonau cadarn ar gyfer datblygu cynaliadwy a rheoli asedau
- Gwella'r defnydd o asedau tir a'u hansawdd
- Lleihau tebygolrwydd a difrifoldeb effeithiau amgylcheddol
- Diogelu rhag llygredd
- Ymgysylltu â chydweithwyr i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion rheoleiddio ac nad ydynt yn rheoleiddiol, ac i gefnogi'r gwaith o wella System Rheoli'r Amgylchedd yn barhaus, rydym wedi datblygu Rhaglen Archwilio Cydymffurfiad â'r Amgylchedd, sy'n cynnwys pob safle sydd o fewn cwmpas ein System Rheoli'r Amgylchedd.

## 3.3.1 Cynlluniau Atal Llygredd

Mae Cynlluniau Atal Llygredd sy'n benodol i'r safle ar waith ar gyfer pob gorsaf sydd â staff, ac mae Cynlluniau Atal Llygredd generig ar waith ar gyfer gorsafoedd heb staff (lle mae'r risgiau'n is oherwydd diffyg gweithgareddau gweithredol ar y safle). Mae'r Cynlluniau Atal Llygredd yma'n gwneud y canlynol:

- Disgrifio risgiau llygredd a mesurau arfaethedig i atal digwyddiadau llygredd
- Disgrifio'r mesurau arfaethedig i liniaru a rheoli unrhyw Effeithiau Amgylcheddol sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd
- Cael eu hadolygu'n flynyddol (neu yn dilyn digwyddiad llygredd) i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol, a'u diwygio yn ôl yr angen.

Mae cael y cynlluniau hyn yn eu lle yn helpu i liniaru achosion o lygredd ac yn lleihau achosion o lygredd gwasgaredig, a allai effeithio ar fywyd gwyllt a chynefinoedd lleol fel arall.

### 3.3.2 Briffiau Digwyddiadau Amgylcheddol

Rydym yn monitro ac yn rheoli digwyddiadau amgylcheddol ar draws ein gweithrediadau, gan ganolbwyntio'n gryf ar ddiogelu bioamrywiaeth leol ac uniondeb ecolegol. Gall y digwyddiadau hyn gynnwys gollyngiadau, tipio anghyfreithlon, amharu ar gynefinoedd, a niwsans amgylcheddol. Mae pob digwyddiad yn cael ei gofnodi ac yn destun ymchwiliad i bennu'r achos sylfaenol ac asesu unrhyw effeithiau posibl. Gweithredir mesurau ataliol lle bo hynny'n bosibl i leihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto. Mae'r dull hwn yn cefnogi gwelliant parhaus mewn stiwardiaeth amgylcheddol ac yn cyfrannu at gadernid ecosystemau lleol.

## 3.4 Canllawiau Seilwaith Gwyrdd

Mae ein pecyn cymorth seilwaith gwyrdd yn nodi amrywiaeth o dechnegau a chymwysiadau ar gyfer ein timau prosiect. Mae'n ceisio darparu amrywiaeth o ddulliau ar gyfer:

- Gwella ansawdd aer
- Rheoli dŵr wyneb ffo
- Lleihau effeithiau ynys wres drefol
- Gwella bioamrywiaeth
- Hybu datblygiad economaidd
- Gwella'r manteision amgylcheddol a llesiant.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i anelu at unrhyw un sy'n ystyried gwella mannau gwyrdd mewn gorsafoedd neu o'u cwmpas. Gall gweithwyr TrC ei ddefnyddio, gan gynnwys rheolwyr prosiect, datblygwyr, cynllunwyr, peirianwyr a phenseiri, Mabwysiadwyr Gorsafoedd a'n contractwyr.

Mae'r mesurau'n cynnwys toeau a waliau gwyrdd, plannu aml-swyddogaethol ar gyfer bywyd gwyllt, blychau cynefinoedd a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy. Rydym yn annog seilwaith gwyrdd yn y camau dylunio cynnar er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl.

## 3.5 Pecyn Cymorth Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Adnodd Sgrinio Gwneud Penderfyniadau yn cael ei ddefnyddio fel rhan o holl gynigion y Tîm Arwain Gweithredol. Mae wedi'i ddylunio i sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn TrC yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau trawsbynciol, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd. Defnyddir yr offeryn hwn i helpu ystyried penderfyniad yn fwy manwl ac i nodi a oes angen asesiad effaith llawn.

Wrth sgrinio'r penderfyniad, rhaid i'r awdur ystyried goblygiadau gweithredu'r penderfyniad neu'r argymhelliad i'r meysydd a nodir mewn tabl ategol cynhwysfawr, sy'n cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gellir cwblhau'r Adnodd Sgrinio fel hunanasesiad, neu os oes angen cefnogaeth bellach, fel rhan o sesiwn wedi'i hwyluso.

## 3.6 Pecyn Cymorth yr Orsaf

Mae ein Pecyn Cymorth yr Orsaf yn cynnwys adrannau dylunio ar gynnwys potiau blodau, paneli ffotofoltaidd a bwriedir iddo gynnwys adrannau ar lochesi gwyrdd.

## 3.7 Cynllun Gwaith

Mae'r gofynion cynaliadwyedd a bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys o Gam A ar gyfer prosiectau yn ein Cynllun Gwaith mewnol, i sicrhau y ceisir cyngor a chymorth arbenigol mewn perthynas â bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn ystod camau cychwynnol a dylunio prosiectau, ac i roi arweiniad perthnasol i reolwyr prosiect er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd a bod effeithiau yn cael eu hosgoi.

## 3.8 Amcanion Llesiant

Mae ein pedwar amcan llesiant wedi'u cynllunio i gynyddu ein cyfraniad at nodau llesiant cenedlaethol Cymru a chynnal ein hymrwymiad i genedlaethau'r dyfodol. Mae pob amcan yn cyd-fynd â'r saith nod cenedlaethol ac yn sicrhau effeithiau eang a chadarnhaol ar eu traws.

Mae'r amcanion hyn, sydd wedi'u hamlinellu yn ein datganiad llesiant, yn llywio ein penderfyniadau i adlewyrchu anghenion pobl yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.

### 3.8.1 Amcan 2: O Fudd i'r Amgylchedd

Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn cryfhau cadernid ecosystemau, yn gwella ansawdd aer ac yn hybu effeithlonrwydd adnoddau. Drwy weithio'n agos â chymunedau, asiantaethau amgylcheddol a rhanddeiliaid, byddwn yn dylunio atebion arloesol sy'n lleihau allyriadau niweidiol ac sy'n helpu i warchod treftadaeth naturiol Cymru.

Bydd ein strategaethau yn hyrwyddo cerbydau trydan a charbon isel, yn sefydlu coridorau trafnidiaeth gwyrdd, ac yn cynnwys egwyddorion dylunio cynaliadwy sy'n diogelu bywyd gwyllt lleol a systemau ecolegol.

## 3.9 Llywodraethu

Cafodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gwreiddiol TrC (2021-2026) ei gymeradwyo gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Gweithredu

Bioamrywiaeth diweddaraf (2026-2030) yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys adolygiad ac ymgysylltiad gan ein Tîm Arwain Gweithredol cyn ei gyhoeddi.

Mae ein hymrwymiadau bioamrywiaeth ac ecoleg - gan gynnwys y rheini yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac o dan ddyletswydd Adran 6 - yn destun Adolygiad Rheoli Risg Misol gan yr Arweinydd Technegol ar gyfer Ecoleg a Bioamrywiaeth, bob blwyddyn gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ac fel sy'n ofynnol gan ein Tîm Arwain Gweithredol (er enghraifft ar gyfer unrhyw risgiau strategol newydd) i sicrhau cydymffurfiad.

# 4 Uchafbwyntiau, canlyniadau a materion allweddol

Ceir crynodeb o'n prif gamau gweithredu, mentrau a chanlyniadau yn yr adran hon, gan ddefnyddio amcanion ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth fel fframwaith cyfeirio.

## 4.1 Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau

Ein nod yw sicrhau gwelliant cyffredinol mewn bioamrywiaeth gan roi ystyriaeth ragweithiol i fioamrywiaeth a manteision ehangach i'r ecosystem mewn cyd-destun creu lleoedd yn gynnar yn y broses o ddylunio a gwneud penderfyniadau.

Rydyn ni'n parhau i weithio ar gronfa ddata asedau ecolegol helaeth yn fewnol, a fydd yn galluogi ein staff i ddeall yn well ble mae'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ecolegol yn ein rhwydwaith. Mae hyn yn cynnwys nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer mesurau addasu i'r hinsawdd fel atebion sy'n seiliedig ar natur, comisiynu arolygon lidar a drôn o'r awyr i gasglu gwybodaeth fanwl am gynefinoedd sy'n bresennol, iechyd coed a nodi a monitro risgiau ecolegol, rheoli a gweithredol fel clefyd coed ynn yn well.

Bydd y dull rheoli hwn ar lefel yr ecosystem yn ein helpu i gynnal, gwella a diogelu ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newidiadau fel y newid yn yr hinsawdd.

Fel rhan o'r amcan hwn, rydyn ni hefyd yn gweithio ar brif ffrydio gwaith rheoli cynefinoedd bioamrywiol hirdymor ar gyfer ein hasedau tir o fewn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cwmpasu dros 220km o gledrau.

Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i ddeall yn well yr hyn rydyn ni'n ei ennill, ei gadw a'i golli o ran bioamrywiaeth ar ein hasedau tir yn ogystal â chanfod mesurau lliniaru a gwella mwy cywir, a'n galluogi i ddarparu tystiolaeth ac atebolrwydd am hyn yn fwy effeithiol o dan ddyletswydd Adran 6.

## 4.2 Cyfathrebu ac ymgysylltu

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n timau Cyfathrebu, Brandio a Rhanddeiliaid i sicrhau bod yr holl negeseuon sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn dryloyw, yn gywir ac yn hygyrch i'n gweithwyr, ein cwsmeriaid a'r cyhoedd yn ehangach. Mae cyfathrebu clir yn hanfodol i helpu pawb i ddeall pwrpas, amseriad ac effaith ecolegol bosibl ein gweithgareddau.

Mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan arbenigwyr pwnc ac adolygu amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu, fel llythyrau at breswylwyr am waith sydd ar y gweill, ymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth, gweithdai cymunedol, canllawiau i randdeiliaid sy'n mabwysiadu ac yn gwirfoddoli, cynnwys ar y wefan, diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a chyfathrebiadau allanol eraill.

## 4.3 Cydweithio â Rhanddeiliaid

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda chyrff, rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol fel Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ein partneriaid cymunedol, Grwpiau Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Network Rail a grwpiau amgylcheddol lleol fel Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru.

Mae'r cydweithio a'r ymgysylltu allanol hwn yn ein galluogi i gyfrannu at greu cymunedau sydd â chysylltiadau da a gwneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus. Er enghraifft, cysylltu mentrau bioamrywiaeth prosiect a chyllid â grwpiau a blaenoriaethau cadwraeth natur lleol. Mae TrC yn aelod o nifer o grwpiau partneriaeth natur lleol i sicrhau bod ein gwaith yn gyson a lle bynnag y bo modd, i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio.

## 4.4 Rheilffyrdd Cymunedol

Mae ein timau Rheilffyrdd Cymunedol a Chynaliadwyedd yn ymgysylltu â sefydliadau a gwirfoddolwyr ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau, i ddatblygu a gwella amgylchedd naturiol y rheilffyrdd.

Mae ein Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol yn helpu i hyrwyddo'r rheilffordd ar lefel leol ar yr un pryd â gweithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Network Rail ac awdurdodau lleol i gefnogi gwelliannau i wasanaethau a gorsafoedd.

Rydym yn cynnal sgyrsiau allgymorth cymunedol gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddoli lleol i ddarparu cyngor, cefnogaeth ac ymgysylltiad ynghylch ein gwaith, a'r cyfleoedd bioamrywiaeth rydyn ni'n eu gwneud. Mae ein cynllun Mabwysiadu Gorsafoedd hefyd yn cefnogi bioamrywiaeth mewn gorsafoedd, gyda dros 250 o wirfoddolwyr yn helpu i ofalu am nodweddion gwyrdd fel gerddi a photiau blodau.

Drwy'r uchod gallwn wella ein dealltwriaeth o anghenion ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol, ac fe fydd hynny'n cael dylanwad cadarnhaol ar ein gwaith.

## 4.5 Prif ffrydio arferion gorau

Rydym wedi ymrwymo i wreiddio arferion gorau ar gyfer bioamrywiaeth yn ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n gweithrediadau o ddydd i ddydd. Lle bo'n briodol, mae mesurau llywodraethu ar waith ac yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol ar lefel bwrdd, adran a phrosiect.

Mae'r dull hwn yn cynnwys darparu hyfforddiant wedi'i dargedu i staff (fel rheolwyr asedau tir, peirianwyr a thimau ochr rheilffyrdd) i'w helpu i nodi cyfyngiadau a chyfleoedd ecolegol ar lawr gwlad.

Drwy wneud hynny, rydym yn sicrhau bod ystyriaethau bioamrywiaeth a diogelu ecosystemau yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o gynllunio a chyflawni ein gweithgareddau adeiladu, cynnal a chadw a rheoli asedau, ar yr un pryd â chynnal safonau iechyd a diogelwch llym.

Mae egwyddorion arferion gorau sylfaenol ar gyfer ecoleg a bioamrywiaeth yn cael eu cymhwyso yn unol â'r hierarchaeth lliniaru ecolegol hon:

Osgoi > Lleihau > Lliniaru > Gwrthbwyso

Mae arbenigedd ecolegol a chyngor technegol ar gael i'r holl staff drwy'r tîm Ecoleg a Bioamrywiaeth i gefnogi sut i gydnabod hyn a'i roi ar waith ym mhob tîm. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyffredinol, sicrwydd, cymorth prosiectau, hyfforddiant staff, adolygiadau technegol a chyfeirio at gymorth ychwanegol yn ôl yr angen.

Dyma rai enghreifftiau:

- Lleihau faint o chwynladdwyr a ddefnyddir wrth reoli rhywogaethau goresgynnol ac wrth ymgymryd â gwaith rheoli llystyfiant arferol ar ein rhwydwaith (gweler yr adran astudiaethau achos).
- Caffael - alinio ein cwestiynau caffael mewn tendrau - gyda thystiolaeth lle bo hynny'n berthnasol - i adlewyrchu egwyddorion yr hierarchaeth lliniaru ecolegol. Mae cydymffurfiaeth yn cael ei monitro a'i gwerthuso drwy gydol y broses rheoli contractau, yn unol â fframwaith diweddaraf TOMS Gwerth Cymdeithasol Cymru (Themâu, Canlyniadau a Mesurau).
- Rhannu data ecolegol gyda rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys canolfannau cofnodion amgylcheddol).
- Sicrhau bod adolygiad a chyngor technegol ar adroddiadau ecolegol allanol yn cyd-fynd ag argymhellion arferion gorau cyfredol CIEEM.
- Cynhyrchu modiwlau e-ddysgu ecoleg ar gyfer dechreuwyr newydd.
- Darparu hyfforddiant ecolegol i staff TrC ar ein cyfrifoldebau mewn perthynas â deddfwriaeth bioamrywiaeth ac arferion gorau, gan gynnwys sesiynau dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein, gweithgorau'r gyfarwyddiaeth, sesiynau tîm a chyfarfodydd rheolwyr prosiectau.
- Presenoldeb mewn gweithgorau allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaethau Natur Lleol i sicrhau arferion gorau a rhannu gwybodaeth.

- Presenoldeb blynyddol staff y tîm ecoleg mewn gweithdai, cynadleddau a hyfforddiant i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau mewn arferion gorau ecolegol yn cael eu nodi a'u rhannu.
- Gweithio'n agos ag arbenigwyr pwnc mewnol (gan gynnwys yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd ac ynni) i ganfod cyfleoedd ar gyfer integreiddio arferion gorau i ddarparu gwasanaeth ecosystem ehangach, gan ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur, atal llygredd, rheoli carbon, dŵr a llifogydd mewn prosesau a gweithdrefnau mewnol.
- Gweithio tuag at ennill statws 'Caru Gwenyn' Llywodraeth Cymru yng ngorsafoedd unigol TrC.
- Symleiddio prosesau mewnol fel bod modd gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a gwell ar gyfer bioamrywiaeth (e.e. Cynllun Gwaith a Phecyn Cymorth Gwneud Penderfyniadau).
- Archwilio atebion ecolegol arloesol ar gyfer heriau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth fel monitro ecolegol o bell, rheoli pori ar ochr y rheilffyrdd a dewisiadau amgen i ddefnyddio plaladdwyr ar gyfer rheoli rhywogaethau estron goresgynnol.
- Presenoldeb ecolegol mewn cyfarfodydd a grwpiau mewnol allweddol gan gynnwys Seilwaith, Caffael a Gweithrediadau.

Drwy weithio'n agos â'n staff a'n rhanddeiliaid i gefnogi newid, byddwn yn creu newid mewn diwylliant lle mae bioamrywiaeth yn cael ei choleddu ar bob lefel ac yn sicrhau bod ein camau gweithredu fel sefydliad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

## 4.6 Mentrau bioamrywiaeth

Rydyn ni wedi ymgymryd ag amrywiaeth o fentrau bioamrywiaeth, ac rydyn ni'n gweithio arnyn nhw ar hyn o bryd. Mae llawer ohonynt yn cynnwys gweithio'n agos â grwpiau cymunedol lleol ac yn gysylltiedig â llwybrau teithio llesol. Rhan allweddol o'r amcan hwn yw chwilio am gyfleoedd bioamrywiaeth a chanfod ble gallwn fynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen yn unig.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at greu cymunedau deniadol, hyfyw sydd â chysylltiadau da ac mae'n cynyddu lles corfforol a meddyliol pobl a'u dealltwriaeth o hyn.

Mae'r mentrau bioamrywiaeth yn cynnwys:

- Seilwaith gwyrdd wedi'i osod yn Nepo'r Barri (gweler yr adran astudiaethau achos)

- Nodweddion gwyrdd wedi'u gosod mewn dros 45 o orsafoedd rheilffyrdd fel rhan o Reilffyrdd Cymunedol TrC
- Prototeipiau llochesi aros â tho gwyrdd a wal werdd wedi'u gosod ar do ein prif swyddfa ar gyfer ymchwil ac ymgysylltu (gweler yr adran astudiaethau achos)
- Seilwaith gwyrdd gan gynnwys to gwyrdd a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy i'w gosod yng nghyfnewidfa Caerffili (datblygiad o'r cynllun yn parhau)
- Caffael offer pryfed peillio o bell (parhaus; i'w osod ar ein rhwydwaith yn 2026)
- Lloches to gwyrdd wedi'i gosod yng ngorsaf drenau Ynys y Barri
- Monitro poblogaeth a gwasgariad hadau ar gyfer heboglys Radur (gweler yr adran astudiaethau achos)

## 4.7 Heriau, rhwystrau a chyfyngiadau

Mae cyflawni ein hamcanion bioamrywiaeth a chyflawni ein dyletswydd Adran 6 yn gofyn am ymgysylltu, cydweithio ac ymrwymiad sefydliadol cryf. Un o'r prif heriau yw cydbwyso anghenion bioamrywiaeth â gofynion gweithredol y rheilffordd, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Mae rheoli'r cydbwysedd hwn yn effeithiol yn hanfodol.

Mae llawer o fentrau bioamrywiaeth yn gofyn am gynllunio hirdymor, gwaith cynnal a chadw parhaus, a chyllid wedi'i gynnal. Mae cynllunio a sicrhau'r adnoddau angenrheidiol ymlaen llaw yn hanfodol, gan y gall fod yn anodd cael cyllid ôl-weithredol unwaith y bydd cyllidebau wedi'u hymrwymo a bod materion yn codi.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i leihau ein heffaith ar fioamrywiaeth drwy fesurau rhagweithiol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod cynlluniau potiau blodau yn y dyfodol yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ac yn briodol yn ecolegol, mabwysiadu arferion rheoli llystyfiant gwybodus ac integredig, lleihau'r defnydd o chwynladdwyr, a gwreiddio nodweddion fel seilwaith gwyrdd mewn prosesau dylunio o'r cychwyn cyntaf.

## 4.8 Astudiaethau Achos

### 4.8.1 Llys Cadwyn

Yn 2023, gosodwyd prototeip o loches aros to gwyrdd ar do swyddfa TrC yn Llys Cadwyn, Pontypridd, gyda'r nod o dreialu'r nodwedd ar gyfer y posibilrwydd o'i osod yn ehangach ar draws ein seilwaith (er enghraifft llochesi aros) fel mesur gwella bioamrywiaeth. Mae Tîm Cynaliadwyedd TrC wedi monitro'r to gwyrdd drwy gydol

2024 a 2025 i benderfynu ar lwyddiant y planhigion a ddewiswyd, a deall problemau a gwelliannau cynnal a chadw posibl.

Cafodd wal werdd ei chodi fel treial hefyd ar falconi'r 4ydd llawr yn swyddfa Llys Cadwyn TrC ym Mhontypridd yn 2023; gyda'r fantais ychwanegol o gynnig mwy o les i staff. Mae'r system hon yn treialu rhywogaethau mewn system sy'n dyfrhau â llaw, sy'n gofyn am waith cynnal a chadw wythnosol (dŵr a thocio) ac offer newydd posibl, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Fel yr uchod, mae gwaith monitro'n mynd rhagddo i bennu llwyddiant nodweddion o'r fath, y planhigion mwyaf addas a strategaethau cynnal a chadw.

Gosodwyd y ddwy system gan Green Infrastructure Consultancy.

### 4.8.2 Gorsaf Ynys y Barri

Gosodwyd lloches to bywlysiau yng ngorsaf Ynys y Barri yn 2024 i wella bioamrywiaeth a darparu 'cerrig camu' gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt. Dewiswyd y fanyleb hon fel dewis arall yn lle to gwyrdd blodau gwyllt oherwydd pa mor agos yw nodweddion o'r fath at Drydaneiddio Llinellau Uwchben (OLE); byddent yn system cynnal a chadw is y gellid ei hôl-osod ar lochesi eraill o bosibl.

Mae'r to wedi cael ei fonitro drwy gydol 2024/25 i sefydlu llwyddiant a gofynion cynnal a chadw to bywlysiau mewn lleoliadau gorsafoedd fel hyn, er mwyn gallu eu cyflwyno ymhellach.

### 4.8.3 Heboglys Radur

Mae heboglys Radur yn bresennol mewn dau leoliad yng ngorsafoedd TrC Danescourt a Radur. Yn blanhigyn endemig prin iawn, amcangyfrifwyd mai dim ond 30 oedd poblogaeth flaenorol y planhigyn hwn yn y DU yn wreiddiol.

Mae'r camau a gymerwyd i ddiogelu ac annog tyfiant y planhigyn yn cynnwys codi arwyddion yng ngorsaf Danescourt i roi gwybod i staff a chontractwyr am ei bresenoldeb yn ystod gwaith prosiect yn yr orsaf. Roedd hyn yn cynnwys Bwletin Amgylcheddol drwy ein Partner Cyflenwi Seilwaith (Amey Infrastructure Wales) ar ei leoliad a'i gyfyngiadau, casglu hadau wedi'u targedu a'u hailddosbarthu yn y cyffiniau lleol, rheolaeth hirdymor bwrpasol, gwahardd defnyddio plaladdwyr yn yr ardaloedd hyn a chydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr uchod.

Mae Ecolegwyr TrC wedi cynnal ymweliadau monitro blynyddol i fonitro tyfiant a phoblogaeth y planhigion, gyda chynnydd nodedig yn nifer y planhigion unigol ers casglu'r hadau rhwng 2022 a 2025.

### 4.8.4 Depo y Barri

Cafodd Prosiect Cynaliadwyedd Enghreifftiol cyntaf TrC ei roi ar waith yn Nepo'r Barri yn 2025 ac roedd yn cynnwys gosod goleuadau sy'n defnyddio ynni solar a gwynt oddi ar y grid, rhwystrau wedi'u hailddefnyddio, meinciau wedi'u gwneud gan ein partner cymunedol, Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian, gardd gorsiog wedi'i

gwneud gan aelod o'r tîm a byrddau a meinciau wedi'u hailddefnyddio a roddwyd gan Goodsheds. Mae tîm Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd TrC hefyd yn cynnal treial lloches sy'n defnyddio ynni solar ar y safle yn 2025.

Cafodd gardd llesiant hygyrch ei chreu; gan gynnwys gwelyau planhigion oddi ar y llawr wedi'u gwneud o drawstiau a adferwyd ar y safle, pedwar gwely natur gyda phlanhigion sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, gwestai pryfed a blychau adar, tri gwely bwyd a chasgen ddŵr. Cyflawnodd y depo Safon Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd y llynedd. Mae gan lwyddiant y prosiect botensial i arwain at fentrau a phrosiectau tebyg mewn safleoedd depo addas eraill, i gynyddu bioamrywiaeth a'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws ein rhwydwaith.

### 4.8.5 Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru

Mae nifer o gyrsiau dŵr a chwlfertau o fewn ffiniau tir TrC, a nodwyd bod rhai ohonynt yn rhwystro pysgod rhag mudo, er enghraifft oherwydd diffyg mannau gorffwys a llethrau serth. Mae gwelliannau i helpu pysgod i fudo wedi cael eu cadarnhau ac mae arolygon ar y gweill. Bwriedir gosod hyn yn ystod gaeaf 2026 er mwyn gwella cwlfert Nant Hir yn Hirwaun i helpu pysgod i fudo. Mae hyn yn cynnwys gosod bafflau cwlfert a ramp arnofiol.

### 4.8.6 Amey Infrastructure Wales a Chynghrair Craidd

Mae'r adran hon yn cynnwys gwaith a wnaed ar y cyd gan Gynghrair Craidd (partneriaeth a ffurfiwyd gan Trafnidiaeth Cymru, Balfour Beatty, Siemens Mobility, Alun Griffiths Contractors Ltd ac Amey Infrastructure Wales) cyn diddymu ym mis Rhagfyr 2024 gan fod hyn o fewn y cyfnod adrodd.

#### 4.8.6.1 Cwlfert Pentrebach (2023)

Cafodd cwlfert Pentrebach a'r arglawdd amgylchynol, ym Merthyr Tudful, eu nodi ar gyfer arglawdd gwella bioamrywiaeth gan ddefnyddio Datrysiad Wal â Llystyfiant Gravitas Flex. Bu Amey Infrastructure Wales yn gweithio gyda'r dylunydd (ymgynghorydd Amey) a Trafnidiaeth Cymru i weithredu wal â llystyfiant buddiol gan ddefnyddio 50% o ddeunydd wedi'i ailgylchu ar gyfer adeiladu'r wal, y gellir ei hailgylchu 100%, gyda bagiau'n gymysgedd o dywod a chompost, gan hyrwyddo twf bioamrywiaeth. Sefydlogodd wal â llystyfiant Gravitas Flex yr arglawdd ac mae'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ystod y gwaith adeiladu - gan allyrru 97% yn llai o nwyon tŷ gwydr na choncrid a 98.5% yn llai na dur mewn gweithgynhyrchu. Mae'r ateb arloesol hwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithlonrwydd cost

#### 4.8.6.2 Adfer, Gwarchod a Gwella Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cwm Elái (2024)

Fel rhan o brosiect (Adfer, Diogelu a Gwella Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cwm Elái), mae staff a gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru wedi bod yn mynd i'r afael â llaw-geirios estron goresgynnol ar hyd Afon Elái. Mae'r

gwirfoddolwyr wedi gweithio'n ddiflino i dorri ardaloedd mawr o lawryf lle mae wedi gafael mewn ardaloedd coediog ar Lwybr Elái. Gan dorri â llaw, mae'r tîm bellach wedi clirio tua 500 metr sgwâr, gyda'r gwirfoddolwyr yn cynnwys pobl leol ynghyd â grwpiau o staff o Lywodraeth Cymru a Balfour Beatty. Casglodd bwrdd arwain cysgodol Cymru, Gogledd Lloegr a'r Canolbarth, ynghyd â staff o bob rhan o brosiect Llinell Graidd y Cymoedd a'n his-gontractwr Mikerry, 15 bag o sbwriel ac eitemau cartref a gafodd eu tipio'n anghyfreithlon. Gweithiodd y tîm yn galed hefyd i dynnu tua 100m2 o lawr-geirios goresgynnol. Y camau nesaf sydd wedi'u cynllunio yw trin bonion y llawryf a phlannu coed gyda gwirfoddolwyr. Bydd y timau'n parhau i chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o blannu coed ac yn gobeithio dychwelyd ym mis Mawrth 2026 gydag Uwch Dîm Arwain y Systemau Rheilffyrdd i gefnogi Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru i geisio dorri record y byd wrth lanhau'r afonydd. Cyfanswm yr oriau gwirfoddoli: 60.

#### 4.8.6.3 Llinellau Craidd y Cymoedd - Rhywogaethau goresgynnol

Ar hyn o bryd, mae ein Partner Cyflenwi Seilwaith Amey Infrastructure Wales yn rheoli 315,452m2 o Jac y Neidiwr a 233,125m2 o glymog Japan ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Gyda'i gilydd, roedd cyfanswm o 548,577m2 o rywogaethau estron goresgynnol wedi'u trin neu wedi cael ymweliad yn ystod 2022-25, yn cynnwys Creigafal, clymog Japan, Jac y Neidiwr, Bambŵ, Ceirch Cochion a Rhododendron.

Pan fydd ein timau is-gontractwyr yn mynd allan ar y safle i drin rhywogaethau estron goresgynnol, maen nhw'n adrodd yn ôl ar unrhyw ardaloedd newydd a ganfuwyd neu os yw'r safleoedd wedi cynyddu/lleihau o ran maint ar sail ffigurau'r llynedd. Yna, caiff hyn ei gofnodi ar brif daenlen a'n system GIS i ddangos y wybodaeth ar graffiau.

Chwistrellu chwynladdwyr yw'r prif ddull o drin rhywogaethau estron goresgynnol, ond pan fo'n bosibl, mae Jac y Neidiwr yn cael ei dynnu â llaw/ei strimio/torri llwyni gan gynnwys pan fydd hi'n bwrw glaw. Mae cyfanswm o 95,639m2 o rywogaethau estron goresgynnol wedi cael eu tynnu â llaw hyd yma, gan arbed tua 50 litr o chwynladdwr rhag cael ei ddefnyddio.

Mae'r gwaith o drin rhywogaethau estron goresgynnol yn effeithiol; gyda'r aildyfiant cyfartalog o Jac y Neidiwr yn 2025 yn 44%. Tyfodd clymog Japan 20% ar gyfartaledd.

Defnyddir dull trin newydd i gynnal 'astudiaeth beilot' o ddulliau rheoli marchrawn yn ystod 2026. Ar ben hynny, rydym yn ymchwilio i opsiynau eraill ar gyfer trin rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys trin â stêm a rheoli biolegol.

### 4.8.7 Canol Tref Aberhonddu

Mae Swyddfa Ddylunio TrC yn cefnogi Cyngor Powys i ail-ddychmygu'r strydoedd yng nghanol Aberhonddu fel amgylchedd sy'n gyfoethog o ran natur ac sy'n

gyfeillgar i gerdded a beicio. Fel rhan o hyn, rydym yn gweithio ar gynnwys cyfres o erddi glaw bioamrywiol ac ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i gynnyrch palmant bloc heb sment a charbon isel arloesol. Rydym hefyd wedi cynnig ail-bwrpasu pren o draphont Gymreig i ffurfio meinciau stryd yng nghanol y dref.

# 5 Adroddiad gweithredu

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb mewn perthynas â phob amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Ceir gwybodaeth ategol yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn.

## 5.1 Amcan 1: Ymgysylltu ac ategu cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel

### 5.1.1 Ymgorffori bioamrywiaeth

Cyhoeddwyd y cynlluniau, polisïau a dogfennau corfforaethol canlynol ac maen nhw'n ymgorffori cynaliadwyedd a bioamrywiaeth fel mater o drefn:

- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
- Amcanion Llesiant
- Cynllun Corfforaethol Pum Mlynedd
- Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid
- Canllawiau Seilwaith Gwyrdd
- Adnodd Sgrinio Penderfyniadau
- Polisi caffael
- System Rheoli'r Amgylchedd - Y Ddraig Werdd
- Gweithdrefn Rheoli Adar
- Cynllun Gwaith

Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r uchod er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ac amcanion yn cael eu gwneud ar gyfer y tymor hir a'u bod yn cyd-fynd â'r nodau llesiant.

### 5.1.2 Cyllid

Dyma'r cyllidebau mewnol a ddyrannir bob blwyddyn yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth tan fis Ebrill 2025:

- Mentrau bioamrywiaeth cyffredinol - £5,000 (2025) a £30,000 (2026) - Mae'r gwaith arfaethedig sy'n defnyddio'r cyllidebau hyn yn cynnwys caffael offer monitro pryfed peillio o bell a rheoli cynefinoedd trydydd parti.
- Seilwaith Gwyrdd (Llys Cadwyn) - £500.

- Natur yn y Gymuned - £5,000 y flwyddyn - noddi'r categori hwn yng ngwobrau Cymru Daclus sy'n cael eu rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r gwaith hwn yn helpu i nodi grwpiau perthnasol i weithio gyda nhw mewn prosiectau natur cysylltiedg.

### 5.1.3 Hyfforddiant, ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth

Mae hyfforddiant, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth yn fewnol yn mynd rhagddo, gan gynnwys:

- E-fodiwlau cynaliadwyedd a bioamrywiaeth gorfodol bellach ar waith ar gyfer pob gweithiwr newydd
- Sesiynau ecoleg wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cael eu darparu i bob gweithiwr
- Cefnogaeth bwrpasol i dîm y prosiect gan gynnwys gofynion a chyfleoedd ecoleg
- Gweithdai Seilwaith Rheilffyrdd
- Sesiynau ecoleg wedi'u darparu yng Ngrŵp Arloesi TrC
- Holl negeseuon mewnrwyd y Cwmni

## 5.2 Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Fel rhan o'r arferion gorau ac i sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol, lle bo hynny'n berthnasol, mae'r holl weithgareddau ar draws ein gweithrediadau - gan gynnwys cynnal a chadw seilwaith, rheoli llystyfiant, ac adeiladu o'r newydd - yn destun Arfarniadau Ecolegol Rhagarweiniol, arolygon rhywogaethau a warchodir, ac arolygon cwmpasu ecolegol yn ôl yr angen. Mae'r asesiadau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau posibl ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig ac â blaenoriaeth.

Mae unrhyw fentrau bioamrywiaeth, a ddatblygir yn unol â'n hamcanion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ehangach, yn cael eu harwain gan bresenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaethol a nodwyd yn ystod y broses werthuso. Mae hyn yn cynnwys cynnal astudiaethau desg safle-benodol i ganfod cyfleoedd i wella cynefinoedd neu roi mentrau ar waith (er enghraifft, dewis rhywogaethau planhigion neu arferion rheoli cynefinoedd) sy'n cefnogi rhywogaethau â blaenoriaeth leol.

Bydd ein cronfa ddata ecolegol Llinellau Craidd y Cymoedd, ar ôl ei chwblhau, yn cynnwys mesurau i warchod rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth ar ein hasedau tir fel mater o drefn (gan gynnwys dulliau rheoli tir pwrpasol ar gyfer pob rhan o'r llwybr) yn ogystal â blaenoriaethu, creu a diogelu ecosystemau cadarn drwy ganfod cymhlethdod a hirhoedledd y cynefinoedd.

Bydd y gronfa ddata hon yn nodi cyfleoedd o ran bioamrywiaeth ar draws ein rhwydwaith a fydd yn cael gwybod am ddata ecolegol ar gyfer rhywogaethau a warchodir, safleoedd, cynefinoedd, rhywogaethau estron goresgynnol a chyfleoedd o ran cysylltedd (gan gynnwys, er enghraifft, data o Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru a B-lines Buglife).

### 5.2.1 Llinellau Craidd y Cymoedd

Rydyn ni wedi trydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymoedd De-ddwyrain Cymru. Gall llystyfiant ger y rheilffordd fod yn beryglus i iechyd a diogelwch ein gweithwyr a chwsmeriaid. Mae rheoli llystyfiant ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhan hanfodol o drydaneiddio. Bydd hefyd yn gwneud y rheilffordd yn fwy diogel, yn fwy dibynadwy ac yn fwy addas i heriau newid hinsawdd y dyfodol. Mae diffygion hanesyddol o ran cynnal a chadw cledrau yn golygu newidiadau mawr ar ein rheilffyrdd ar hyn o bryd; gan gynnwys mwy o lystyfiant yn cael ei dynnu nag a fu ers blynyddoedd lawer.

Mae arolygon ecolegol yn cael eu cynnal cyn y gwaith er mwyn i ni allu deall unrhyw ofynion ac effeithiau ecolegol.

Rydym yn defnyddio dull cynhwysfawr o warchod bywyd gwyllt yn ystod ac ar ôl ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys, lle bo angen, cael trwyddedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu mewn ardaloedd sydd â rhywogaethau gwarchodedig, cynnal archwiliadau ecolegol ymlaen llaw a goruchwyliaeth ar y safle (fel monitro adar sy'n nythu), a rhoi mesurau bioddiogelwch llym ar waith i atal rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu. Rydym hefyd yn darparu mesurau lliniaru tymor hir ar gyfer rhywogaethau fel ystlumod, drwy greu a gwella cynefinoedd sy'n cael eu rheoli o dan gynlluniau cadwraeth parhaus.

Rydym yn cynnal cyfarfod misol gyda'n partner cyflenwi seilwaith, Amey Infrastructure Wales, sy'n cynnwys gwaith, risgiau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ecoleg. Mae unrhyw risgiau a nodwyd y mae angen cymryd camau pellach i'w cywiro yn cael eu hadolygu, gan gynnwys archwiliadau mewnol i wella prosesau, cynlluniau gwaith a gweithdrefnau.

Rydym yn y broses o weithredu Cynllun Rheoli Llystyfiant ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd fel rhan o'n Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid. Mae'r Cynllun Rheoli Llystyfiant yn ceisio cydbwyso diogelwch gweithredol a chadernid mewn tywydd garw ein hasedau rheilffyrdd. Rydyn ni'n rheoli llystyfiant allweddol ar ochr y cledrau i leihau'r rhwystrau ffisegol a gweladwy ar y cledrau, gan sicrhau bod ein trenau'n rhedeg yn ddiogel a bod cyn lleied o darfu â phosibl ar ein gwasanaethau. Mae cynyddu cadernid ein hasedau rhag tywydd eithafol hefyd yn rhan greiddiol o'r Cynllun Rheoli Llystyfiant. Gall rheoli llystyfiant trwchus a choed sydd wedi gordyfu yn effeithiol leihau'r risg o goed sy'n cael eu chwythu gan y gwynt, a malurion a dail wedi cwympo ar y cledrau, gan sicrhau bod y rheilffordd yn rhedeg yn ddiogel a llai o oedi ar drenau.

Rydym yn cynnal ac yn diogelu cynefinoedd presennol â blaenoriaeth yn ogystal ag ystyried cyfleoedd i blannu coed strategol sy'n benodol i rywogaethau, er mwyn cynyddu cadernid asedau (fel gwaith cloddio a chledrau). Mae'r manteision o ran cadernid yn cynnwys darparu cysgod mewn tymheredd poeth, lloches rhag hyrddiau gwynt ac arafu dŵr ffo o law i leihau'r perygl o lifogydd. Mae hyn yn cael ei gydbwyso â llystyfiant hanfodol ar ochr y cledrau er mwyn cynnal diogelwch.

Fel rhan o'n proses Asesiad Risg Newid Hinsawdd, byddwn yn adolygu unrhyw waith plannu newydd mewn perthynas â risgiau a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu rhywogaethau y gellir eu haddasu gyda mwy o oddefgarwch i wyntoedd eithafol ac amrywiadau tymheredd ledled lleoliadau ar ochr y cledrau. Mae atebion ar sail natur a chynlluniau rheoli llifogydd naturiol yn cael eu harchwilio am eu potensial i leihau'r perygl o lifogydd ac effeithiau tywydd eraill ar ein rhwydwaith. Mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid.

Mae pob safle statudol, anstatudol a safle a ddynodir yn lleol yn cael ei gynnwys fel rhan o arolygon ecolegol a gynhelir fel mater o drefn cyn i unrhyw waith gael ei wneud a allai effeithio ar rywogaethau a safleoedd a warchodir.

### 5.2.2 Waltwood

Mae TrC yn rheoli tri safle o bwysigrwydd er cadwraeth natur ar hyn o bryd; mae'r rhain yn Waltwood ger Trefesgob, Casnewydd:

- Cae'r Gogledd Craig-y-Perthi sydd wedi'i ddynodi am ei laswelltir calchaidd wedi'i led-wella o fewn cae glaswelltir mwy sydd wedi'i wella.
- Cae'r De Craig-y-Perthi sydd wedi'i ddynodi am ei laswelltir calchaidd wedi'i led-wella o fewn cae glaswelltir mwy sydd wedi'i wella.
- Mae Coedwig Craig-y-Perthi wedi'i dynodi'n goetir hynafol lled-naturiol gyda phoblogaeth fawr o flodau-ymenyn peneuraid a thegeirianau coch y gwanwyn.

Mae'r tri yn yr un ardal ac yn ddarostyngedig i waith rheoli wedi'i dargedu er mwyn cynnal a diogelu'r nodweddion cymwys hyn gan gynnwys monitro blynyddol, pori defaid a rheoli coedlannau.

## 5.3 Amcan 3: Cynyddu cadernid ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd dirywiedig a chreu cynefinoedd

Yn unol â'n hamcan 'Cefnogi Mentrau Bioamrywiaeth' y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o fannau a nodweddion gwyrdd mewn dros 80 o orsafoedd rheilffyrdd ers 2019, ac mae rhagor o ddatblygiadau ar y gweill. Lle bynnag y bo modd, mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys plannu planhigion sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, i gefnogi bioamrywiaeth leol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos â rheolwyr gorsafoedd a grwpiau mabwysiadwyr gorsafoedd i wella cynefinoedd mewn gorsafoedd lleol. Gyda'i gilydd, ac yn unol â Datganiadau Ardal perthnasol, mae'r mentrau hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gysylltu pobl â byd natur drwy greu 'cerrig camu' gwyrdd ar draws ein rhwydwaith, mewn ardaloedd lle nad oedd mannau naturiol o'r blaen. Mae hyn yn helpu i leihau cynefinoedd rhag darnio a chryfhau cadernid ecosystemau lleol.

Rydym hefyd yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i feithrin partneriaethau ystyrlon sy'n cefnogi'r amcanion bioamrywiaeth a amlinellir yn Natganiadau Ardal Canol De a De-ddwyrain Cymru.

Ar ôl ei chwblhau, bydd cronfa ddata asedau bioamrywiaeth Llinellau Craidd y Cymoedd yn sail i fesurau tymor hir, canllawiau, cyfleoedd ac argymhellion ar gyfer creu, gwella a rheoli cynefinoedd mewn ffordd addas, ac fe fydd hynny'n seiliedig ar bob llwybr. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda thirfeddianwyr cyfagos i ganfod cyfleoedd ar gyfer rheoli cydgysylltiedig a gwelliannau graddfa tirwedd.

# 5.4 Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau

## 5.4.1 Prif bwysau

Rydyn ni wedi cynnal arolygon cynhwysfawr o rywogaethau estron goresgynnol ers dod yn berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd yn 2020, er mwyn canfod y risgiau a'r cyfleoedd rheoli yn llawn o fewn ffin perchnogaeth TrC.

Fel rhan o hyn, mae 268,912m2 o Jac y Neidiwr a 226,885m2 o glymog Japan nawr yn ddarostyngedig i gynlluniau rheoli hirdymor sy'n cael eu trin naill ai drwy chwistrellu chwynladdwyr, tynnu â llaw, torri llwyni neu strimio.

Yn ogystal â thrin, rydyn ni'n rhoi protocolau bioddiogelwch llym ar waith wrth weithio mewn mannau sy'n cynnwys rhywogaethau goresgynnol. Rhoddir Nodiadau Cyngor Prosiect i weithwyr fel sy'n berthnasol, sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a'u gofynion.

Er mwyn lleihau'r risgiau i fioamrywiaeth, iechyd pobl a rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, rydym yn gweithio'n galed i leihau a, lle bo'n bosibl, i gael gwared ar y defnydd o chwynladdwyr ar ein hasedau tir; boed hyn yn ymwneud â rheoli rhywogaethau goresgynnol neu fel rhan o waith rheoli llystyfiant arferol.

Mae hyn yn golygu gweithio'n agos â'n Partneriaid Cyflenwi Seilwaith, grwpiau mabwysiadwyr gorsafoedd, rheolwyr gorsafoedd a chontractwyr i benderfynu ym mha feysydd y gallwn ni ddefnyddio dulliau rheoli amgen (fel tynnu â llaw â thynnu â pheiriannau) yn hytrach na chwynladdwyr (gweler yr adran astudiaethau achos am enghraifft o orsaf).

Mae pob ardal ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol yn destun proses i werthuso dulliau trin er mwyn penderfynu a oes modd trin y rhain drwy dynnu â llaw, torri llwyni neu strimio; yn hytrach na chwistrellu chwynladdwyr. Er nad yw bob amser yn bosibl defnyddio dulliau corfforol neu fecanyddol, mae dulliau eraill fel tynnu Jac y Neidiwr â llaw i leihau'r defnydd o chwynladdwyr yn cael eu gwerthuso ar gyfer pob ardal drin. Y cyfanswm ar gyfer tynnu â llaw, torri llwyni neu strimio yn ystod y rownd gyntaf o driniaeth yn 2022 oedd 30,712 m2; sy'n cyfateb i fwy na 600 litr o chwynladdwr.

Rydym yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i ddefnyddio dulliau trin amgen yn hytrach na chwynladdwr ac yn gweithio i ddod o hyd i safleoedd treial addas posibl ar gyfer y rhain.

## 5.4.2 Newid hinsawdd a chadernid

Mae TrC yn cyfrannu at nod Cymru o ddatgarboneiddio ein rhwydwaith drwy fesurau fel trydaneiddio rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, defnyddio Atebion

ar Sail Natur, a gweithio i gael gwared ar lygredd ym mhob un o orsafoedd Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae ein dull wedi'i nodi yn ein Strategaeth Effaith Carbon Isel.

Mae Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid TrC yn ein helpu i sicrhau bod TrC yn nodi, yn cofnodi ac yn lliniaru ei risgiau hinsawdd yn llawn ar draws ein rhwydweithiau a'n gweithrediadau, drwy ymrwymo i wreiddio cadernid hinsawdd ym mhopeth a wnawn. Drwy gydnabod y cysylltiadau cynhenid rhwng cadernid a'r argyfwng natur, mae ein cynllun gweithredu cadernid hinsawdd strategol yn canolbwyntio ar y cyd-fanteision y gellir eu gwireddu os addasir yn effeithiol. Mae'n hanfodol ein bod yn adfer ein mannau naturiol a'n bioamrywiaeth fel bod cymdeithas yn gallu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

O'r herwydd, byddwn yn ystyried atebion ar sail natur dros ddewisiadau peirianyddol caled er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd neu i weithio gyda natur i leihau'r graddau mae TrC yn agored i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Os penderfynir mai atebion peirianyddol caled yw'r rhai mwyaf priodol, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod prosiectau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith yn sensitif er mwyn lleihau unrhyw effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau cyfagos.

### 5.4.3 Seilwaith Gwyrdd

Anogir cymryd camau i gynnwys seilwaith gwyrdd yn y camau dylunio cynnar er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Mae ein Pecyn Cymorth Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys toeau a waliau gwyrdd, plannu amlswyddogaethol ar gyfer bywyd gwyllt, blychau cynefinoedd a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy. Mae cynigion seilwaith gwyrdd yn cynnwys to gwyrdd a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy yng nghyfnewidfa Caerffili.

# 5.5 Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

## 5.5.1 Casglu a rhannu data

Rydyn ni'n dilyn canllawiau arfer gorau a deddfwriaeth mewn perthynas â chasglu a rhannu data. Mae cyfleoedd ecolegol, risgiau ac unrhyw fesurau lliniaru neu drwyddedau sy'n ofynnol o ganlyniad i'n gwaith, yn seiliedig ar sicrhau data perthnasol am rywogaethau a chynefinoedd (gan gynnwys Adran 7) gan ganolfannau cofnodion amgylcheddol perthnasol yn ôl yr angen. Mae unrhyw effaith bosibl ar rywogaethau a chynefinoedd Adran 7 yn ddarostyngedig i hierarchaeth lliniaru ecolegol er mwyn osgoi hyn, gan leihau neu liniaru dim ond lle nad oes modd osgoi hynny.

Rydyn ni'n rhannu ein data ecolegol o'n rhwydwaith â Chanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru er mwyn gwella a hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chofnodi naturiol yn rhanbarthol.

Gall y cyhoedd wneud cais i weld y data ecolegol a gesglir neu a gedwir fel rhan o'n gwaith drwy gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth, ac fe'i rhennir â grwpiau cymunedol lleol fel y bo'n berthnasol.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n creu cronfa ddata asedau ecolegol yn fewnol a fydd yn galluogi ein gweithwyr i ddeall yn well ble mae'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ecolegol yn ein rhwydwaith. Mae hyn yn cynnwys comisiynu arolygon lidar ac arolygon drôn o'r awyr yn ddiweddar er mwyn casglu gwybodaeth fwy cywir am gynefinoedd a chanfod a monitro problemau fel clefyd coed ynn yn well (a bydd y data'n cael ei rannu â chanolfannau cofnodion). Bydd hyn, yn ei dro, yn sail i unrhyw gynlluniau rheoli a chyllidebau tymor byr a hirdymor sy'n dilyn.

Bydd cronfa asedau ecolegol TrC yn cynnwys set ddata sy'n nodi cyfleoedd o ran bioamrywiaeth ar draws ein rhwydwaith a fydd yn cael gwybod am ddata ecolegol ar gyfer rhywogaethau a warchodir, safleoedd, cynefinoedd, rhywogaethau estron goresgynnol a chyfleoedd o ran cysylltedd (gan gynnwys, er enghraifft, data o Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru a B-lines Buglife).

## 5.5.2 Dangosyddion perfformiad allweddol a metrigau

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda thimau Cyllid a Chynllunio Busnes i gysoni ein fframweithiau gosod cyllideb, cynllunio strategol a pherfformiad â Dangosyddion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a Mesurau Monitro Llwybr Newydd, gan gefnogi ein dyletswyddau bioamrywiaeth statudol a'n hamcanion amgylcheddol.

Rydyn ni'n gwreiddio'r hierarchaeth lliniaru ecolegol mewn prosesau caffael ac yn gofyn i gyflenwyr gyd-fynd â'r dull gweithredu hwn lle bo hynny'n berthnasol. Bydd

cynnydd yn cael ei fonitro drwy reoli contractau a'i werthuso gan ddefnyddio'r fframwaith TOM (Themâu, Canlyniadau a Mesurau) wedi'i ddiweddaru yng Nghymru.

#### 5.5.2.1 Dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol a mesurau monitro

Byddwn yn defnyddio'r dangosyddion a'r mesurau canlynol i olrhain ein cyfraniad at gadernid ecolegol, bioamrywiaeth ac ansawdd aer:

Amcanion Llesiant Corfforaethol TrC a Mesurau Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru:

- Lefel y llygryddion aer o'r sector trafnidiaeth
- Hectarau o gynefinoedd ar yr ystâd drafnidiaeth sy'n cael eu cynnal neu eu gwella er bioamrywiaeth
- Canran y seilwaith trafnidiaeth sydd mewn perygl o lifogydd

O Ddangosyddion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

- Dangosydd 15: Faint o wastraff a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu, y pen
- Dangosydd 41: Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
- Dangosydd 43: Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru
- Dangosydd 44: Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru

Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu defnyddio i gysoni Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol TrC â blaenoriaethau cenedlaethol, ac i fonitro cynnydd o ran ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

### 5.5.3 Llywodraethu a chydymffurfio

Cafodd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth gwreiddiol TrC (2021-2026) ei gymeradwyo gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth diweddaraf (2026-2030) yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys adolygiad ac ymgysylltiad gan ein Tîm Arwain Gweithredol cyn ei gyhoeddi.

Mae ein hymrwymiadau bioamrywiaeth ac ecoleg - gan gynnwys y rheini yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ac o dan ddyletswydd Adran 6 - yn destun Adolygiad Rheoli Risg Misol gan yr Arweinydd Technegol ar gyfer Ecoleg a Bioamrywiaeth, bob blwyddyn gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ac fel sy'n ofynnol gan ein Tîm Arwain Gweithredol (er enghraifft ar gyfer unrhyw risgiau strategol newydd) i sicrhau cydymffurfiad.

### 5.5.4 Gwirfoddoli

Mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu hannog, a byddant yn parhau i gael eu hannog yn y sefydliad drwy ein diwrnodau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, fel

gwirfoddoli i helpu gydag unrhyw fentrau gwyrdd y mae TrC yn eu cynnal e.e. cynnal a chadw seilwaith gwyrdd y swyddfa, gosod potiau blodau mewn gorsafoedd fel rhan o Amcanion Bioamrywiaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, a chyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli bioamrywiaeth allanol fel y bo'n berthnasol.

### 5.5.5 Cymorth Ecolegol

Mae arbenigedd ecolegol ar gael i holl weithwyr TrC drwy'r tîm Ecoleg a Bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyffredinol, cymorth prosiectau, hyfforddiant, adolygiadau technegol a chyfeirio at gymorth allanol yn ôl yr angen.

### 5.5.6 Cyllidebau - Bioamrywiaeth

Dyma'r cyllidebau mewnol a ddyrannir yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth:

- Mentrau bioamrywiaeth cyffredinol - £5,000 (2025) a £30,000 (2026) - Mae'r gwaith arfaethedig sy'n defnyddio'r cyllidebau hyn yn cynnwys caffael offer monitro pryfed peillio o bell a rheoli cynefinoedd trydydd parti.
- Seilwaith Gwyrdd (Llys Cadwyn) - £500
- Natur yn y Gymuned - £5,000 y flwyddyn - noddi'r categori hwn yng ngwobrau Cymru Daclus sy'n cael eu rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r gwaith hwn yn helpu i nodi grwpiau perthnasol i weithio gyda nhw mewn prosiectau natur cysylltiedig

### 5.5.7 Cydweithwyr ac Adnoddau

Rydym wedi ehangu galluoedd ein tîm Ecoleg a Bioamrywiaeth drwy recriwtio Prif Ecolegydd ac Arweinydd Cyflawni Prosiect Ecoleg rhwng 2024-25.

### 5.5.8 Cyllid a Phartneriaethau

Byddwn yn parhau i geisio am gyllid priodol, a gwneud cais amdano, i alluogi mentrau bioamrywiaeth lle bo hynny'n briodol.

Mae Sefydliad Enbarr, Neuadd Bentref Ffynnon Taf, Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian, rhandiroedd Bron Fair a Hyb Cymunedol Twyn ymhlith yr enghreifftiau o bartneriaid cymunedol rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda nhw hyd yma.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos â grwpiau amgylcheddol lleol fel Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru i sicrhau tryloywder, cefnogaeth ac ymgysylltiad yn ein gweithrediadau.

Mae TrC yn aelod o nifer o grwpiau partneriaeth natur lleol i sicrhau bod ein gwaith yn gyson a lle bynnag y bo modd, i nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio.

Rydyn ni wedi sefydlu proses fewnol i nodi'r defnydd o ddeunyddiau a'u hailgylchu, gan gynnwys deunyddiau prosiect dros ben (fel pyst ffens) rydyn ni'n bwriadu eu rhannu â rhanddeiliaid a grwpiau ehangach i'w defnyddio.

# 6 Adolygu dyletswydd Adran 6

Wrth baratoi'r adroddiad hwn rydyn ni wedi adolygu ein dull gweithredu o ran ein dyletswydd Adran 6.

Y prif faterion a chyfleoedd sydd wedi'u hamlygu yw:

- Deall a chreu ffordd effeithiol o fesur a darparu enillion cyffredinol i fioamrywiaeth yn ein gweithrediadau er mwyn adrodd yn effeithiol o dan ein dyletswydd Adran 6 yn y dyfodol. Yn absenoldeb canllawiau ffurfiol ar hyn o bryd o ran disgwyliadau Llywodraeth Cymru i ddarparu 'Budd Net i Fioamrywiaeth' o dan Bolisi Cynllunio Cymru ar gyfer prosiectau datblygu, bydd angen parhau i ddatblygu hyn.
- Dyrannu a sicrhau digon o gyllid i gyflawni nodau ac amcanion bioamrywiaeth ystyrlon bob blwyddyn. Gall hyn fod yn heriol wrth wynebu meini prawf 'peirianneg gwerth' a chyfyngiadau cyllideb prosiectau.
- Parhau â'r Tîm Arwain Gweithredol i sbarduno a hyrwyddo'r newid diwylliannol a'r arloesi sydd ei angen i gyflawni ein cyfrifoldebau a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol o ran bioamrywiaeth.
- Hyfforddiant ac ymgysylltu ar draws y sefydliad i sbarduno newid diwylliannol, a sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried yn elfen graidd o'n gweithrediadau; gan gyflawni hyn wrth dargedu'n strategol ar gyfer cyfarwyddiaethau perthnasol ar draws y sefydliad.